

(parhad o'r dudalen gyntaf)

Diolchwn a dathlwn y rhodd nerthol yma gan Dduw a diolchwn i Dduw am y rhai a neilltuwyd ganddo fel Arfon Jones yn ein cenedlaeth ni i gyfieithu ei Air o'r newydd a'i gyflwyno i genhedlaeth newydd. Awn yn llu i'r Bala i ddathlu cyhoeddiad Beibl.net ac os na fedrwn fynd, beth am weddio gyda ni: 'Air disglair Duw, rho d' oleuni i Gymru (ac i mi) heddiw ...'

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Anurin

Cofion

- Parhawn i gofio am y cleifion yn ein plith – Selwyn Davies (Cefn Meiriadog) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd; Beryl Jones (Nantglyn) yn Ysbyty Rhuthun; a Bronwen Williams (Cefn Berain), Peter Jones (Groes) a Gwyn H. Davies (Hiraethog) yn yr Inffirmari. Cofiw'n am eraill ohonoch sydd heb fod cystal eich hiechyd ar hyn o bryd hefyd. Diolchwn am bob un ohonoch a gweddiwn y bydd Duw yn eich amgylchynu gyda thrugaredd a daioni.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Gwenfyl Jones (Yr Hen Ficerdy); Mrs Elizabeth Hughes (Plas Eleri); a Mrs Menna Owen a Miss W J Roberts (Yr Hen Ddeondy). Hyderwn eich bod chwithau yn adnabod gofal a chwmmi'r Arglwydd.

I ddo

- **CYNHADLEDD UNDYDD DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD** yng Nghapel Bethel, Prestatyn dydd lau, Tachwedd 12fed a 10.00 – 3.00.
- **PENWYTHNOS BLAENORIAID** yng Ngholeg Trefeca – Tachwedd 13eg-15fed. Y siaradwyr fydd: Y Parch. Meirion Morris – “O'r Seiadau, i'r Eglwysi – i'r Seiadau”; Y Parch. Janice Jones – “Crist a'r Gymuned”; a Moses Tutesigensi – “Rôl Blaenoriaid o fewn yr Eglwys...a thu allan”. Croeso i flaenoriaid hen a newydd. Cost y penwythnos fydd £89. Mwy o fanylion gan Reolydd Coleg Trefeca: 01874 711423 / colegtrefeca@ebcpcw.org.uk, neu holwch Mair am ffurflen.
- **“GWISGO MERCH AR DRAWS Y BYD”** Un o'r syniadau a gafwyd trwy gyflwyniad Sarah Morris (Rhaglen Dorcas) yng Nghyfarfod Chwiorydd yr Henaduriaeth yn Henllan yn ddiweddar oedd y byddai darparu dilledyn newydd 'yn rhodd heb ei ail' i blant mewn angen ar draws y byd. Bwriedir cael noson yn Festri Llansannan nos Wener, Tachwedd 27ain (SYLWCH AR Y NEWID DYDDIAD) i ddechrau ar y prosiect o bwytho ffrogiau a siorts (patrwm syml gan ddefnyddio cas gobennydd), ac i weu tedi i'w rhoi ym mhoced y dilledyn. Mwy o fanylion i ddilyn. Croeso i bawb o bob oed!



Llais Bro Aled
Dydd Sul, 1^{af} Tachwedd 2015

Darlleniad y Dydd

Marc 3: 1-6

(BCND tud.39 / BCN: tud.36)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd ac i ddiwrnod o ddathliad! Arfer cynyddol ydi dathlu calan gaeaf a'r hen gredoau am oleuni a thywyllwch ond heddiw mae gennym ni gyfle fel eglwys i ddathlu gwir oleuni – goleuni 'Gair disglair Duw' – oherwydd heno fe fyddwn yn ymuno i ddathlu lansiad 'Beibl.net' mewn print am y tro cyntaf! Fe fydd Oedfa'r Fro heno ar daith felly ac fe gawn gyfle i fynd draw i Goleg y Bala erbyn 6.00 i ymuno yn oedfa'r dathlu a diolch i Dduw am ei Air 'ar newydd wedd'.

Yr hyn sydd mor syfrdanol am y Beibl ydi mai rhodd Duw ydi o! Mae geiriau'r emyn yn gyfarwydd i ni :

*“Dyma Feibl annwyl Iesu,
Dyma rodd deheulaw Duw..”*

Golyga 'deheulaw Duw' sawl peth – mai Duw yw awdur y Beibl yn un peth, ond hefyd golyga mai rhodd o gryfder neu nerth Duw ydi'r Beibl ac oherwydd hynny mae'r Beibl yn bwerus – yn alluog i droi yr enaid a'n dwyn i adnabod Duw yn Iesu Grist. Mae'n air sydd yn datguddio Duw – yn dod â ni i'w adnabod yn Iesu ac i weld ac amgyffred stori fawr cariad Duw yn ei fyd ac fel y trechwyd marwolaeth a thywyllwch gan y goleuni a ddaeth yn Iesu, ei groes a'i atgyfodiad. (Ioan 1:5)

Dros galan gaeaf eto eleni dathlwyd tywyllwch a thwyll-oleuni pŵl ysbrydegaeth a'r paranormal – efallai mewn anwybodaeth yn achos y mwyafrif – ond yn sicr nid 'hwyl diniwed' ydi hyn wrth 'hel ysbrydion' (chwedl 'Heno' ar S4C a roddodd gymaint o sylw i'r 'wyl' sy'n agor meddwl ac ysbryd plant ac oedolion i gysylltu hefo'r meirw a'r byd ysbrydol di-Grist). Mae'r Beibl yn ein rhybuddio'n bendant i beidio gwneud hyn: “Ddylai neb ddewino, dweud ffortiwn, darogan, consurio, swyno, mynd ar ôl ysbrydion, chwarae gyda'r ocwlt neu geisio siarad â'r meirw.” (Deuteronomium 18:11) ac y mae'n dysgu teulu'r ffydd a'u plant i gadw eu llygaid ar Iesu, ein Harglwydd gogoneddus a'i fuddugoliaeth sydd yn ein harwain i fywyd a goleuni. Oherwydd y tywyllwch sydd yn ein deall (Effesiaid 4: 18) mae'r Beibl yn dweud yn glir mai 'goleuni yw Duw, ac nid oes ynddo Ef ddim tywyllwch' (1 Ioan 1:5) ac y bydd yn gweithredu i symud pobl o dywyllwch i oleuni Crist (Actau 26:18)

Dyma paham fod y Beibl yn ganolog i ffydd yr eglwys a dyma pam fod heddiw yn ddiwrnod arbennig yn hanes Cymru. Ein braint ni ydi eiriol ar i Dduw, trwy ei Ysbryd, ein symud o deyrnas y tywyllwch i deyrnas ei oleuni rhyfeddol Ef. (Colosiaid 1:13) Ac mae ei Air yn oleuni i ni yn ein dysgu sut i fyw a dilyn Iesu.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Salm 19: 7-11 (BCND tud.499 / BCN: tud.456)

(parhad ar y dudalen gefn)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 1^{af} • **Oedfa'r Fro ar Daith** – y tro hwn yng Ngholeg y Bala pryd y bydd oedfa arbennig i lansio copi o beibl.net. Bydd paned am 6.00 a bydd yr oedfa yn cychwyn am 6.15. Croeso i bawb!
- Mercher – 4^{ydd} • **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
• **'Ma isho gras - beth ydym ni'n ddisgwyl gan Dduw?'** Bydd Dr Rhodri Glyn, fel rhan o'i gwrs, yn arwain digwyddiad agored yn Festri Llansannan am 7.30. Croeso i bawb.
- Iau – 5^{ed} • **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
Gwener – 6^{ed} • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sadwrn – 7^{fed} • **Ysgol Sadwrn DAWN Cymru** yng Nghapel Seion, Baker Street, Aberystwyth SY23 2BJ am 10.00.
- Sul nesaf – 8^{fed} • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 1^{af} Bydd y Parch. Brian Wright yn pregethu yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 2.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Llanfair.
- Sul nesaf – 8^{fed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 1^{af} Bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.
- Sul nesaf – 8^{fed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Llansannan

- Sul yma – 1^{af} Bydd Sarah yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Sul nesaf – 8^{fed} Cynhelir Cyfarfod Gweddi am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Byddwn yn ymgynnull wrth y gofeb ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cofio am 10.50.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 1^{af} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
Sul nesaf – 8^{fed} Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 1^{af} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.
Sul nesaf – 8^{fed} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 1^{af} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.
Sul nesaf – 8^{fed} Bydd Sarah yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Cymorth i'r Ffoaduriaid

Yn ogystal â'r holl nwyddau a gyfrannwyd, cafodd sic eic am £880.00 ei hanfon o'r Ofalaeth i *Tearfund* sydd yn cynnig gofal, cefnogaeth a chymorth i'r ffoaduriaid trwy nifer o eglwysi yn y gwledydd sydd wedi eu heffeithio, a hefyd gydag eglwysi yn Ewrop. Deallwn hefyd fod rhai ohonoch wedi anfon eich sic yn uniongyrchol i *Tearfund*. Diolch am eich haelioni.

“Yn wir, 'rwy'n dweud wrthy ch, yn gymaint ag ichwi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain, fy nghymrodyr, i mi y gwnaethoch.” (Mathew 25:40)

Manylion Cyswllt

- Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com 📞 01745 870618 📞 07775 701102
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📞 07849 591163
Sarah – 📧 sarah@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📞 07900 308461
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.